## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, ac eithrio rheoliad 3(6), wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheoliad 3(6) wedi ei wneud o dan adran 16 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (p. 16) i ddiwygio Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012 i osod y meini prawf sy'n gymwys i'r dull o benderfynu lefel y finyl clorid mewn deunyddiau ac eitemau mewn cysylltiad â bwyd ac o benderfynu lefel y finyl clorid a ryddheir gan y deunyddiau ac eitemau hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru ym maes bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig, deunyddiau ac eitemau mewn cysylltiad â bwyd, ac ychwanegion, cyflasynnau, ensymau a thoddyddion echdynnu bwyd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.